

Ymgynghoriad ar fesurau perfformiad ansawdd darparwyr ar gyfer addysg drydyddol

Dyddiad: 20 Hydref 2026

Cyfeirnod: Medr/2026/50

At: Benaethiaid darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru
Darparwyr cyfredol a darparwyr posibl prentisiaethau yng
Nghymru
Cyrff sy'n cynrychioli darparwyr/ cyflogwyr
Cyrff sy'n cynrychioli dysgwyr
Cynrychiolwyr addysg awdurdodau lleol ar gyfer Dysgu
Oedolion yn y Gymuned a darpariaeth chweched dosbarth
Penaethiaid chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir
gan yr awdurdod lleol.
Partïon eraill â buddiant

Ymateb erbyn: 9 Rhagfyr 2026

Rhagor o wybodaeth: ansawdd@medr.cymru

Crynodeb:

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynglŷn â mesurau perfformiad ansawdd arfaethedig Medr ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Byddwn yn dechrau mabwysiadu'r Mesurau yn raddol o fis Mai 2027 ymlaen, ar sail y data sydd ar gael inni bryd hynny. Gwahoddir yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a/neu hyfforddiant, cyrff cynrychiadol a rhanddeiliaid eraill i ymateb.

Cyflwyniad

1. O dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae dyletswydd ar Medr i fonitro a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig neu ar eu rhan, a'r addysg a gyllidir gan Medr neu a sicrhau fel arall ganddo (adran 51).
2. Mae [fframwaith rheoleiddio](#) Medr yn nodi'r Amodau Cofrestru a Chyllid y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni. Yr amodau hyn yw'r gofynion craidd ar gyfer cydymffurfio ac maent yn berthnasol ar draws y sector addysg drydyddol. Maent yn cynnwys yr [amod ar gyfer ansawdd a gwelliant parhaus](#), sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr cofrestredig a/neu a gyllidir ddangos bod eu darpariaeth, gan gynnwys yr hyn a ddarperir ar eu rhan, o ansawdd da a'u bod yn ymgysylltu â gwelliant parhaus. Mae hyn o gymorth i gyrraedd Nod Strategol 3 yng [Nghynllun Strategol](#) Medr, h.y. *sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymgeisio i wella'n barhaus*.
3. Mae'r amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus yn nodi mai un o'r gofynion cydymffurfio yw bod â data derbyniol ar berfformiad. Mae'r [Fframwaith Ansawdd](#) yn nodi bod Medr yn disgwyl, erbyn 2027, y bydd wedi adolygu trefniadau casglu data ac wedi ymgynghori ar fesurau perfformiad a'r defnydd o feincnodi. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r ymgynghoriad hwnnw. Mae'n nodi cynigion Medr ar gyfer mesurau perfformiad ansawdd darparwyr ar draws addysg drydyddol, a fydd yn rhan o'n monitro rheoleiddiol.
4. Mae'r mesurau a nodir yn y ddogfen hon wedi'u bwriadu i oleuo ein dealltwriaeth am berfformiad darparwyr mewn perthynas ag ansawdd a gwelliant parhaus.
5. Bydd y mesurau hyn yn ategu monitro ehangach ar gyfer meysydd fel cyfrwng Cymraeg, cydraddoldeb, cyfranogiad a mynediad at addysg drydyddol. Bydd Medr hefyd yn gwneud gwaith ar wahân ar nodi a mesur metrigau sefydliadol yn erbyn ein [huchelgeisiau hirdymor, a fydd yn ystyried y meysydd hyn](#).

Nod yr ymgynghoriad a'r rhesymeg

6. Nod y cynigion yw galluogi Medr i sicrhau cysondeb yn y ffordd yr ydym yn asesu cydymffurfedd y sector addysg drydyddol â'r amod ansawdd a gwelliant parhaus. Byddant yn ein cynorthwyo i wneud hyn mewn ffordd gyfannol a byddant yn ategu dealltwriaeth gyd-destunol ar y cyd am berfformiad. Lle y bo'n bosibl, bydd hyn yn disodli cyhoeddiadau presennol, er mwyn symleiddio prosesau adrodd.
7. Mae'r cynigion hefyd wedi'u bwriadu i gynorthwyo darparwyr i fynd ati i hunanwerthuso ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant parhaus, fel a nodir yn y Fframwaith Ansawdd. Bydd hyn yn helpu darparwyr i'w sicrhau eu hunain eu bod yn ateb gofynion yr amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus.
8. Yn olaf, mae'r cynigion wedi'u bwriadu i sicrhau bod asesiad ansawdd allanol yn cael ei oleuo gan set o ddata sydd ar gael i bob parti.
9. Mae **Atodiad A** yn darparu set o Gwestiynau Cyffredin mewn perthynas â data ar berfformiad.

Egwyddorion

10. Rydym yn cynnig yr egwyddorion canlynol i'n harwain yn y gwaith hwn:

- i) Tryloywder – Rydym yn amcanu at gyhoeddi data ar lefel darparwyr, gan ddefnyddio dangosfyrddau i'w gwneud yn bosibl holi'r data. Mae manylion ar lefel y data a fydd yn cael ei gyhoeddi wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.
- ii) Meincnodi – Bydd mesurau'n cael eu meincnodi hyd y gellir, er mwyn ei gwneud hi'n bosibl asesu a yw perfformiad fel a ddisgwylir mewn perthynas â chymheiriaid darparwr.¹
- iii) Lleihau'r baich – Bydd dadansoddi a chynhyrchu mesurau yn seiliedig ar gasgliadau data presennol lle bynnag y bo'n bosibl a bydd yn unol ag arferion rheoli data da (gan gynnwys ei gasglu unwaith a'i ddefnyddio sawl gwaith), er mwyn lleihau'r baich. Byddwn yn rhoi mynediad i asiantaethau a/neu reoleiddwyr eraill (e.e. Estyn/ yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd) at ddata a dadansoddiadau lle y bo'n briodol, yn amodol ar gytundebau rhannu data.
- iv) Cyd-destunoli – Bydd canlyniadau'r mesurau fel arfer yn sbarduno sgwrs yn y lle cyntaf, i hwyluso cyd-destunoli a dealltwriaeth am dueddiadau. Bydd hyn, ynghyd â thriongli gyda ffynonellau gwybodaeth eraill, yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a oes angen i Medr ymyrryd o gwbl.
- v) Gwelliant parhaus - Bydd y mesurau perfformiad yn cael eu defnyddio gan Medr a darparwyr i oleuo a llywio gwelliant parhaus.

Cwestiynau	
C1	A yw'r egwyddorion hyn yn darparu eglurder ynghylch sut y bydd Medr yn defnyddio mesurau perfformiad? Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

Gwybodaeth a gyhoeddir ar hyn o bryd

11. Mae Medr yn cael gwybodaeth gan ddarparwyr addysg drydyddol trwy nifer o gasgliadau data a cheisiadau am wybodaeth. Defnyddir y rhain i gyfrifo dyraniadau cyllid, monitro cynnydd, goleuo polisi, a chyhoeddi ystadegau swyddogol ar y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Nid yw Medr yn cynnig gwneud newidiadau i'r drefn casglu data ar hyn o bryd.
12. Mae data gan ddarparwyr dysgu sy'n darparu addysg bellach (AB), prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei gasglu trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Mae LLWR hefyd yn casglu data ar ddarpariaeth, fel Prentisiaethau Iau, nad yw o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn. Mae'r ymarfer Casglu Data Ôl-16 yn cwmpasu dysgu a wneir yn chweched dosbarth ysgolion. Mae adroddiadau ar ddeilliannau dysgwyr ar gael yn gyhoeddus ar gyfer darparwyr prentisiaethau a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Nid yw data ar lefel darparwyr yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd ar gyfer addysg bellach a chweched dosbarth.

¹ Ar gyfer AU, mae hyn yn cynnwys darparwyr ledled y DU; ar gyfer rhannau eraill o'r sector addysg drydyddol, darparwyr eraill yng Nghymru yw'r cymaryddion.

13. Mae data am fyfyrwyr addysg uwch yn cael ei gasglu gan ddarparwyr addysg uwch ar ran Medr gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae data a dadansoddiadau ar gael i'r cyhoedd trwy [ddata agored HESA](#) ac ar gael trwy [Heidi Plus](#) i danysgrifwyr. Mae data'r [Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr](#) yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Fyfyrwyr (OfS).
14. Yn seiliedig ar y setiau data hyn, mae Medr yn [cyhoeddi ystod o allbynnau](#) sy'n gysylltiedig ag ansawdd, gan gynnwys y mesurau perfformiad cyson ôl-16 ar gyfer addysg bellach a chweched dosbarth, y mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned, a'r Mesurau Cenedlaethol ar gyfer addysg uwch².
15. Mae Medr hefyd yn cyhoeddi ystod eang o ddata ar wefan [StatsCymru](#) Llywodraeth Cymru. Gwasanaeth data agored swyddogol yw hwn sy'n darparu mynediad at ystadegau a data swyddogol ar gyfer Cymru.

Mesurau perfformiad

16. Bydd Medr yn ystyried data mewn perthynas ag ystod o ddeilliannau i bennu unrhyw risg i ansawdd addysg drydyddol, gan ddefnyddio data presennol lle y bo ar gael. Mae'r Fframwaith Ansawdd yn nodi'r data a fydd yn cael ei ystyried ac mae'n cynnwys: recriwtio, dilyniant, cadw, cwblhau (gan gynnwys ennill cymwysterau), pryderon rheoleiddiol a godwyd gyda Medr (gan gynnwys niferoedd a phatrymau), arolygon dysgwyr (arolygon mewnol darparwyr, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Arolwg Llais y Dysgwr³, fel y bo'n berthnasol) a chyrchfannau (cyflogaeth/ addysg/ hyfforddiant).
17. **Mae Atodiad B** yn darparu disgrifiadau technegol o sut yr ydym yn cynnig echdynnu data o'r ffynonellau data a chyfrifo'r mesurau. Mae hefyd yn darparu diffiniad o bob mesur.
18. Darperir crynodeb o'r mesurau, gan gynnwys ble y byddant yn cael eu meincnodi a'r maes/meysydd yn y Fframwaith Ansawdd y mae pob un yn ymwneud ag ef/â hwy, isod. Er bod data recriwtio wedi'i gynnwys yn y mesurau, ni fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymyriadau sy'n ymwneud ag ansawdd, gan nad yw'r data yma'n ddangosydd o ansawdd y ddarpariaeth, ond ei fod yn hytrach yn darparu cyd-destun defnyddiol.

Prentisiaethau

Mesur		Yn cael ei feincnodi	Maes yn y fframwaith ansawdd
A1	Nifer y rhaglenni dysgu cyllidadwy a ddechreuwyd	Nac ydy	Recriwtio
A2	Canran y dysgwyr sy'n cyflawni eu fframwaith prentisiaeth llawn	Ydy	Cwblhau, deilliannau dysgwyr

² Bydd mesurau cenedlaethol yn cael eu diddymu'n raddol wrth i fesurau'r cynllun strategol gael eu datblygu mewn ymgynghoriad â darparwyr, a bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o broses ein hasesiad risg darparwyr

³ I'w roi ar waith trwy 2026/27

Mesur		Yn cael ei feincnodi	Maes yn y fframwaith ansawdd
A3	Canran y gweithgareddau dysgu prentisiaeth a gwblhawyd yn llwyddiannus	Ydy	Deilliannau dysgwyr
A4	Canran y dysgwyr sydd â chyrchfan barhaus	Ydy	Cyrchfannau
A5	Bodddhad dysgwyr ar y cyfan	Ydy	Llais y Dysgwr

Sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth

Mesur		Yn cael ei feincnodi	Maes yn y fframwaith ansawdd
F1	Nifer y rhaglenni dysgu amser llawn cyllidadwy a ddechreuwyd	Nac ydy	Recriwtio
F2	Canran y dysgwyr sy'n cwblhau eu rhaglen safon UG amser llawn	Ydy	Cwblhau
F3	Canran y dysgwyr sy'n dychwelyd i ddilyn rhaglen Safon Uwch amser llawn ar ôl cwblhau eu rhaglen safon UG amser llawn	Ydy	Cadw
F4	Canran y dysgwyr sy'n cwblhau eu rhaglen Safon Uwch amser llawn	Ydy	Cwblhau
F5	Canran y dysgwyr sy'n ennill o leiaf 3 Safon Uwch (neu'r hyn sy'n gyfwerth)	Ydy	Deilliannau dysgwyr
F6	Canran y dysgwyr sy'n cwblhau eu rhaglen alwedigaethol amser llawn	Ydy	Cwblhau
F7	Y ganran o'r prif gymwysterau a wnaed fel rhan o raglenni dysgu galwedigaethol amser llawn a enillwyd yn llwyddiannus	Ydy	Deilliannau dysgwyr
F8a F8b	Canran y dysgwyr sydd â chyrchfan barhaus: a – addysg gyffredinol b – galwedigaethol	Ydy	Cyrchfannau
F9	Bodddhad dysgwyr ar y cyfan ⁴	Ydy	Llais y Dysgwr

Dysgu oedolion yn y gymuned

Mesur		Yn cael ei feincnodi	Maes yn y fframwaith ansawdd
C1	Nifer y gweithgareddau dysgu a ddechreuwyd	Nac ydy	Recriwtio
C2	Canran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd	Ydy	Cwblhau
C3	Canran y gweithgareddau dysgu y gellir eu hasesu a gwblhawyd yn llwyddiannus	Ydy	Deilliannau dysgwyr
C4	Bodddhad dysgwyr ar y cyfan	Ydy	Llais y Dysgwr

⁴ Ar gyfer chweched dosbarth, mae'r mesur hwn yn amodol ar dreialu a gweithredu Arolwg Llais y Dysgwr yn llwyddiannus.

Addysg Uwch

Mesur		Yn cael ei feincnodi	Maes yn y fframwaith ansawdd
H1	Nifer y cofrestriadau yn ôl dull, lefel, domisil a phwnc	Nac ydy	Recriwtio
H2	Cyfran y cofrestriadau gradd gyntaf amser llawn sy'n cwblhau neu'n symud ymlaen i flwyddyn nesaf eu cwrs	Ydy	Dilyniant, Cadw, Cwblhau
H3	a) Cyfran y dechreuwyr israddedig amser llawn sy'n cwblhau neu'n symud ymlaen flwyddyn ar ôl mynediad b) Cyfran y dechreuwyr gradd gyntaf rhan-amser sy'n cwblhau neu'n symud ymlaen ddwy flynedd ar ôl mynediad	Ydy	Dilyniant, Cadw
H4	Deilliannau dosbarth gradd yn ôl blwyddyn academiaidd ar gyfer y rhai sy'n ennill gradd gyntaf	Nac ydy ⁵	Deilliannau Dysgwyr
H5	Cyfran yr ymadawyr a astudiodd gymwysterau israddedig ac a enillodd y cymhwyster yr anelwyd amdano	Ydy	Dilyniant, Cadw, Cwblhau, Deilliannau dysgwyr
H6	a) Cyfran y graddedigion mewn cyflogaeth a/neu'n astudio 15 mis ar ôl graddio b) Cyfran y graddedigion mewn gwaith sydd mewn swyddi proffesiynol neu reoli 15 mis ar ôl graddio	Ydy	Cyrchfannau
H7	Bodddhad myfyrwyr ar y cyfan	Ydy (eisoës yn cael ei gyfrifo mewn allbynnau ar wefan OfS)	Llais y Dysgwr

19. Ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned, bydd cyhoeddi'r mesurau'n disodli'r Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr ac adroddiadau meincnodi LLWR- Inform sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd y cylch cysoni data ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned yn parhau ac yn cael ei addasu yn ôl yr angen. Ar gyfer AB a chweched dosbarth, bydd y dull meincnodi a gynigir yma'n disodli'r meincnodau demograffig cyfredol ar gyfer y mesur cyflawniad. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd orau o addasu'r adroddiadau darparwyr cyfredol.
20. Ar gyfer y mesurau AU, byddwn yn darparu'r data crai sy'n sail i gyfrifo'r mesurau gyda phob mesur, a hynny i ddarparwyr unigol yn unig. Unwaith y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried a'r mesurau wedi cael eu penderfynu'n derfynol, rydym yn cynnig cyfrifo mesurau perfformiad darparwyr H1,

⁵ Nid ydym yn bwriadu meincnodi deilliannau dosbarthiad gradd, a hynny oherwydd mater cydnabyddedig chwyddiant graddau ac er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil tynnu sylw ffurfiol at ddeilliannau sy'n wahanol i'w meincnod. Byddwn yn dal i archwilio'r data a'u defnyddio ar gyfer deialog â darparwyr lle bo hynny'n briodol.

H2, H4 a H5 trwy system IRIS HESA yn ystod y broses cyflwyno cofnodion myfyrwyr HESA. Mae hyn yn debygol o gael ei gyflwyno'n raddol dros ffurflenni blynyddoedd academaidd 2026/27 a 2027/28 gyda mesurau lle mae angen mwy na blwyddyn o ddata'n debygol o gymryd mwy o amser i gael eu cyflwyno trwy IRIS. Bydd manylion y dulliau echdynnu ar gyfer pob mesur addysg uwch yn cael eu cynnwys yn y cyhoeddiad [gofynion data addysg uwch](#) blynyddol.

Cwestiynau	
C2	A yw'r mesurau perfformiad ansawdd gyda'i gilydd yn darparu sail dda i oleuo ein gweithgarwch ehangach i fonitro perfformiad (a chydymffurfedd) darparwyr yn erbyn ein hamodau cofrestru neu gyllid a'n dealltwriaeth am risg darparwyr? Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.
C3	A yw'r mesurau perfformiad ansawdd gyda'i gilydd yn darparu sail dda i gefnogi gweithgarwch gwelliant parhaus? Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Rhowch fanylion, gan nodi at ba fesurau yr ydych yn cyfeirio.
C4	A yw'r meini prawf echdynnu a'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r mesurau perfformiad ansawdd hyn, fel a nodir yn Atodiad B , yn briodol? Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Rhowch fanylion, gan nodi at ba fesurau yr ydych yn cyfeirio yn eich ymateb.

Meincnodau

- Rydym yn cynnig defnyddio meincnodau i alluogi cymariaethau tecach a mwy ystyrlon rhwng darparwyr ac â'r sector addysg drydyddol yn ehangach. Cyfartaledd wedi'i addasu sy'n ystyried nodweddion ei ddysgwyr yw meincnod.
- Mae darparwyr yn denu gwahanol fathau o ddysgwyr sy'n hunan-ddethol i raddau helaeth. Gall ffactorau fel cymwysterau ar adeg mynediad, pwnc a astudiwyd, oedran, ethnigrwydd, rhyw, amddifadedd, a nodweddion cefndir eraill effeithio ar ddeilliannau ac maent fel rheol y tu hwnt i reolaeth darparwr.
- Oherwydd y gwahaniaethau hyn, nid yw cymharu darparwyr yn uniongyrchol neu yn erbyn cyfartaledd syml ar gyfer y sector (neu ran o'r sector) bob amser yn deg. Mae meincnodau'n rhoi cyfrif am y ffactorau hyn, gan ei gwneud yn bosibl dwyn cymariaethau mwy ystyrlon.
- Mae cymharu perfformiad darparwr â'i feincnod yn helpu i ddangos a yw'n perfformio'n well ynteu'n waeth na'r disgwyl. Mae darparwyr sydd â meincnodau tebyg fel arfer yn fwy cymaradwy, tra bo gwahaniaethau mawr mewn meincnodau'n awgrymu y gall cymariaethau uniongyrchol fod yn llai ystyrlon.
- Fel a nodwyd yn yr egwyddorion uchod, data fydd y man cychwyn ar gyfer sgwrs. Felly, bydd Medr yn defnyddio ystyriaeth i dueddiadau a pherfformiad yn erbyn meincnodau, i oleuo trafodaethau gyda darparwyr yn y lle cyntaf.

26. Rydym yn cynnig defnyddio + neu – i nodi ble y mae deilliannau'n uwch neu'n is na'r meincnod i raddau sy'n arwyddocaol yn ystadegol.
27. Darperir gwybodaeth am y fethodoleg ac enghraifft wedi'i gweithio yn **Atodiad C**.

Cwestiynau	
C5	Ydych chi'n cytuno bod y methodolegau meincnodi a amlinellir yn briodol? Ydw / Nac ydw / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.
C6	A yw ein defnydd arfaethedig o arwyddion +/- i ddynodi perfformiad darparwr sy'n uwch neu'n is na'r meincnod i raddau sy'n arwyddocaol yn ystadegol yn ddull priodol? Ydy / Nac ydy / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

Dull cyhoeddi arfaethedig

28. Rydym yn cynnig cyhoeddi dangosfyrddau o fesurau a fydd yn cynnwys meincnodau darparwyr. Byddwn hefyd yn cynnwys dadansoddiadau ar lefel pynciau.
29. Rydym hefyd yn cynnig cyhoeddi mesurau ar StatsCymru ar lefel pynciau, ac yn ôl nodweddion dysgwyr, iaith astudio a ffactorau eraill. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl holi'r data yn ôl paramedrau ychwanegol, er mwyn iddo allu cael ei ddefnyddio at ystod o ddibenion, gan gynnwys i ddarparwyr dracio a chymharu eu perfformiad yn erbyn y mesurau.
30. Mae **Atodiad D** yn darparu ffug ddata ar gyfer pob rhan o'r sector. Mae hyn yn dangos sut y bydd y mesurau, ynghyd â'u meincnodau a'r dangosyddion +/- yn ymddangos pan fyddant yn cael eu cyhoeddi ar lefel darparwyr.
31. Ar wahân, byddwn yn rhannu data darparwyr gyda hwy yn breifat at ddibenion yr ymgynghoriad hwn, i ddangos sut y bydd yn ymddangos gan ddefnyddio'r dull hwn (gweler y Camau Nesaf am ragor o wybodaeth).
32. Wrth gyhoeddi ffigyrau, boed mewn tablau neu mewn dangosfwrdd, byddwn yn cymhwyso ein dulliau datgelu data arferol i osgoi cyhoeddi unrhyw ddata adnabyddadwy.
33. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod data ar gael i holl ddarparwyr a rhanddeiliaid addysg drydyddol ar lefel sy'n briodol o ran pa mor ronynnog ydyw, a bod cyrff sy'n cynnal asesiad ansawdd allanol (yn enwedig Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd) yn defnyddio'r un set ddata i oleuo eu hymgysylltiadau â darparwyr.
34. Bydd Medr yn ystyried mesurau perfformiad ansawdd darparwyr yn gyfannol ac yng nghyd-destun y rhan o'r sector addysg drydyddol y mae darparwr ynddi.
35. Pan fo darparwr yn sylweddol is na'r meincnod, byddwn yn ymchwilio i'r data ar lefel fwy gronynnog o fanylder i adnabod ble allai fod problemau gyda pherfformiad ansawdd.

36. Yn unol â'r egwyddorion a nodir uchod, a fframwaith rheoleiddio Medr, lle mae gennym bryderon, byddwn yn gweithio gyda'r darparwr i ddeall cyd-destun a chefnidir y data i ddeall rhesymau sylfaenol dros berfformiad.
37. Yna byddwn yn triongli hyn gyda deilliannau asesiadau ansawdd allanol a gwybodaeth arall, i benderfynu a oes angen i ni ymgysylltu ymhellach â darparwyr ai peidio. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo arfer da, neu gamau rheoleiddiol dilynol, fel y bo'n briodol.

Cwestiynau	
C7	A fydd y dull hwn o gyhoeddi data o gymorth i'w ddefnyddio ar gyfer gwelliant parhaus? Bydd / Na fydd / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.


Mesurau yn y dyfodol

38. Bydd Medr yn datblygu ac yn cyflwyno mesurau ansawdd pellach maes o law. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys canlyniadau'r Arolwg Llais y Dysgwr (ar gyfer y dysgwyr hynny y tu allan i'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr), a fydd yn dechrau gweithredu yn 2026/27. Rydym hefyd yn ystyried sut i fynd ati'n well i fesur dilyniant dysgwyr trwy addysg drydyddol. Hefyd, bydd Medr yn ystyried a fydd angen diweddarau'r mesurau ar gyfer prentisiaethau yng ngoleuni'r trefniadau ar gyfer y rhaglen newydd, i gynnwys ystyried gradd-brentisiaethau.
39. Bydd Medr yn gwerthuso'r modd y rhoddir y mesurau perfformiad hyn ar waith ac yn eu hadolygu'n gyson. Byddwn yn dryloyw ynglŷn ag unrhyw newidiadau i fethodoleg neu feincnodi. Byddwn yn ymgysylltu â'r sector cyn ychwanegu unrhyw fesurau ansawdd newydd at y dangosfyrddau, gan gynnwys ymgynghori'n ffurfiol yn ôl yr angen.

Defnyddio mesurau perfformiad ansawdd

40. Fel a nodir uchod, mae Medr yn cynnig defnyddio ystyriaeth i fesurau perfformiad ansawdd yn erbyn meincnodau a thueddiadau, i oleuo sgwrs gyda darparwyr i gyd-destunoli'r data. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i ddeall blaenoriaethau gwelliant parhaus ar draws y sector. Bydd hyn yn bwydo i mewn i ddadansoddiad ehangach Medr o wybodaeth am berfformiad i ffurfio asesiad integredig o gydymffurfedd darparwyr â'r fframwaith rheoleiddio, ac i oleuo Asesiadau Risg Darparwyr.
41. Bydd Medr yn cymryd rhan mewn sgysiau anffurfiol am ddata fel rhan o'i ymgysylltiad rheolaidd â darparwyr. Gall ymgysylltiadau o'r fath ddigwydd trwy gydol y flwyddyn. Bydd Medr yn blaenoriaethu sgysiau lle mae data'n codi pryderon penodol.
42. Mae Diagram 1 isod yn dangos sut y byddwn yn cynnig defnyddio data i benderfynu a ddylid ymgymryd ag ymyriadau rheoleiddiol ac, os felly, pa rai mewn perthynas ag ansawdd a gwelliant parhaus.

Diagram 1:



43. Nid penderfyniad deuaidd syml yw hwn. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth gyd-destunol i'n helpu i ddeall perfformiad darparwyr a byddwn yn triogli gyda gwybodaeth arall fel canlyniadau asesu ansawdd allanol, gwybodaeth (fel a nodir yn y Fframwaith Ansawdd), a chydymffurfedd ag amodau cyllid/ cofrestru eraill. Gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y mater a godwyd, gallwn hepgor camau yn y diagram uchod neu gyflawni camau mewn trefn wahanol.
44. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei bwydo i mewn i broses Asesu Risg Darparwyr Medr, a fydd yn destun ymgynghoriad erbyn gwanwyn 2027.

Cwestiynau

C8	A yw ein dull yn darparu digon o eglurder ynghylch ein defnydd arfaethedig o'r mesurau perfformiad ansawdd? Ydy / Nac ydy / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.
C9	A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ran defnydd arfaethedig Medr o fesurau perfformiad ansawdd? Oes / Nac oes. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

Y Gymraeg

45. Mae ein Cynllun Strategol yn ymrwymo i roi anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy mewn addysg drydyddol, cynyddu'r galw am ddysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn ategu'r nod strategol hwn, rydym yn datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2027 ac yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2027.

46. Bydd y Cynllun Cenedlaethol yn gynllun strategol sy'n trosi dyletswyddau Medr o ran y Gymraeg yn ddisgwyliadau clir ar gyfer y sector trydyddol. Ei nod yw cryfhau a hybu addysg cyfrwng Cymraeg, cefnogi cydweithio ar draws y sector, a galluogi llwybrau dysgwyr mwy cydlynol. Bydd y Cynllun yn ategu system lle gall yr holl ddysgwyr ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg trwy gydol eu taith addysg drydyddol, gan eu harfogi i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle ac mewn bywyd pob dydd.
47. Mae ansawdd a gwelliant parhaus yr un mor bwysig mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ag ydynt mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg. Lle mae argaeledd a chadernid y data'n caniatáu, rydym yn bwriadu cyflwyno a dadansoddi'r mesurau perfformiad ansawdd yn ôl iaith astudio. Bydd hyn yn galluogi Medr a darparwyr i adnabod tueddiadau, gwahaniaethau a thebygrwydd ym mhrofiadau a deilliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg o'u cymharu â'u cymheiriaid cyfrwng Saesneg, ac ymateb yn ôl yr angen.
48. Bydd y dadansoddiad hwn o gymorth i gyflawni ein dyletswyddau strategol a gwelliant parhaus o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r mesurau hyn wedi'u bwriadu i asesu ansawdd ac nid ydynt wedi'u bwriadu i fesur cynnydd yn erbyn y Cynllun Cenedlaethol. Bydd Medr yn gwneud gwaith ar wahân i ddatblygu fframwaith priodol ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y Cynllun.
49. Wrth ateb y cwestiynau canlynol, ystyriwch yr effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiynau	
C10	Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol allai ein cynigion eu cael ar y Gymraeg?
C11	Pa gamau gweithredu ychwanegol allai gynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg?
C12	Pa gamau gweithredu ychwanegol allai atal neu leihau unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

50. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynglŷn ag effaith yr ymgynghoriad hwn ar [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Cwestiynau	
C13	A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015? Byddant / Na fyddant / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

Cydraddoldeb a llesiant

51. Mae dyletswydd ar Medr i hybu Cyfle Cyfartal ar draws agweddau ar addysg drydyddol. Mae Cyfle Cyfartal yn ymwneud â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth

ddigonol yng nghyd-destun cyfranogiad, cadw, cyrhaeddiad a llwyddiant. Mae'r Ddeddf yn diffinio dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol fel rhai sydd dan anfantais o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Bydd ein dull ar y cyfan o ystyried data'n cynnwys dull, iaith astudio a demograffeg dysgwyr.

Cwestiynau	
C14	A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.
C15	A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu? Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.
C16	A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu? Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.
C17	A yw'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?

Camau nesaf

52. Bydd data darparwyr unigol ar gyfer colegau Addysg Bellach (AB) a darparwyr prentisiaethau yn cael eu huwchlwytho gan Medr i'r safleoedd diogel presennol ar gyfer rhannu ffeiliau sy'n cael eu defnyddio gan bob darparwr. Bydd Medr yn cysylltu â phartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) drwy gyfrwng e-bost. Os bydd angen i'r darparwyr hyn wneud unrhyw ddiwygiadau i'r cyswllt neu'r cysylltiadau enwebedig sydd angen mynediad at ddata'r darparwr, gellir cyflwyno cais am y newidiadau hynny drwy anfon neges e-bost at ystadegau@medr.cymru. Bydd data darparwyr ar gyfer dosbarthiadau chwech yn cael ei rannu trwy DEWi (Menter Cyfnewid Data Cymru). Bydd Medr yn lanlwytho data ar gyfer darparwyr addysg uwch unigol i'r gwefannau rhannu ffeiliau diogel sydd eisoes yn bodoli ar gyfer pob darparwr, ac yn eu cadw yn y ffolder 'Mesurau Perfformiad'. Rhaid i ddarparwyr addysg uwch enwebu pwynt(iau) cyswllt a fydd yn gallu cael gafael ar y data, drwy e-bostio ystadegauAU@medr.cymru erbyn 31 Hydref 2026.
53. Byddwn yn amcanu at gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â'n penderfyniadau, yng ngwanwyn 2027. Byddwn yn dechrau mabwysiadu'r Mesurau yn raddol o fis Mai 2027 ymlaen, ar sail y data sydd ar gael inni bryd hynny,, gyda'r eithriadau canlynol:
 - Bydd mesurau cyrchfannau dysgwyr ar gyfer AB, chweched dosbarth a phrentisiaethau, sydd ag oedi cynhenid, yn cael eu defnyddio o gylch adrodd 2024/25 (disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2027);

- Bydd mesurau Arolwg Llais y Dysgwr yn cael eu defnyddio o gylch adrodd 2027/28.

54. Mae hyn yn golygu, wrth iddo ddod ar gael, y bydd data'n cael ei ychwanegu at y dangosfyrddau. Mae'r cylch data wedi'i nodi isod.
55. Bydd y mesurau perfformiad ansawdd yn goleuo prosesau ansawdd o'r adeg y cânt eu cyhoeddi yn y dangosfyrddau. Yn y cyfamser, bydd Medr yn parhau i ddadansoddi data yn unol â'r prosesau cyfredol.
56. Mae'r tabl isod yn darparu cylch cyhoeddi dangosol ar gyfer y set arfaethedig o ddangosyddion. Byddwn yn cyhoeddi dangosyddion cyn gynted â phosibl unwaith y bydd setiau data cyflawn, terfynol ar gael. Ar gyfer H2, H3(a), H3(b), H5, H6(a) a H6(b) rydym yn trafod gyda HESA ynghylch cynhyrchu proses feincnodi felly nid yw'r amserlen gyhoeddi wedi'i diffinio eto. Gall dyddiadau cyhoeddi amrywio gan ddibynnu ar argaeledd data a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyfleu i randdeiliaid:

Mis	Dangosyddion a gyhoeddir
Hydref	Ar gyfer y garfan a oedd yn dysgu, dair blynedd academaidd ynghynt: F8, A4
Chwefror	Ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol: A2, A3, C2, C3, H1, H4
Mawrth	Ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol: F1 i F7, A1, C1
Mehefin	Ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol (amseroedd dros dro): F9, A5, C4
Gorffennaf	Ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol: H7

Ymatebion

57. Gallwch ddod o hyd i gopi o'r cwestiynau ymgynghori yn **Atodiad E**. Ymatebwch drwy'r [ffurflen ar-lein](#) erbyn 9 Rhagfyr 2026 os gwelwch yn dda.
58. Rydym yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Rhagor o wybodaeth

59. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn at ansawdd@medr.cymru.

Asesu Effaith

60. Mae ein hasesiad effaith cychwynnol wedi canfod ei bod hi'n debygol y bydd effaith gadarnhaol, anuniongyrchol ar ddysgwyr o ganlyniad i'n cynigion, trwy welliannau a wneir gan ddarparwyr mewn perthynas ag ansawdd (lle y bo angen), yn ogystal ag ymgysylltu â gweithgarwch gwella'n barhaus.

61. Rydym wedi adnabod y canlynol fel meysydd penodol i'w hadolygu y byddwn yn eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r mesurau:

- Mae darparwyr yn casglu gwahanol lefelau o fanylion am nodweddion gwarchodedig a-dangosyddion economaidd-gymdeithasol. Bydd mwy o gysondeb ar lefel Cymru gyfan o gymorth i gael dadansoddiad mwy eglur o anghyfartalwch ac effeithiau croestoriadol.
- Mae gwelededd darpariaeth freiniol yn amrywio ar draws darparwyr. Bydd dull mwy eglur, mwy cyson o ran gwelededd data'n ategu tryloywder, asesu risg a gwybodaeth i ddysgwyr.
- Ni oes gwybodaeth dda am batrymau croestoriadol o anfantais. Byddai gwell goruchwyliaeth ar y data o gymorth i gael dadansoddiad mwy cadarn o nodweddion sy'n gorgyffwrdd.
- Mae setiau data darparwyr Cymru gyfan yn aml yn rhai â diffyg dadansoddiadau daearyddol cadarn. Mae angen gwybodaeth fwy gronynnog i ddeall patrymau sy'n seiliedig ar ddata mewn mynediad, parhad ac ymgysylltu.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government